

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams and M.R. Wilson.

C36 CYHOEDDIAD -

Dechreuodd yr Arweinydd drwy roi gwybod am rai materion cadw tŷ a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

C37 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin, 2024 fel cofnod cywir.

C38 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C39 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH CH4 2023/2024 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, oedd â'r diben o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cabinet am yr ystadegau absenoldeb salwch o 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Burnett at fentrau a gyflwynwyd gan y Cyngor i gefnogi staff i reoli eu bywydau gwaith gan gynnwys cymwysiaid digidol a mynediad, yn ogystal â chymorth ac adnoddau gan gydweithwyr lechyd Galwedigaethol i gynorthwyo staff i ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosibl.

Byddai'r adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried ac roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at drafodaeth fanwl gan y Pwyllgor gydag unrhyw sylwadau'n cael eu dychwelyd i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

No.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD yr adroddiad a'r ffigurau absenoldeb salwch (Ebrill 2023 - Mawrth 2024 a ddarperir yn Atodiad A yn cael eu nodi.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried, gydag unrhyw sylwadau'n cael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Dwyn materion i sylw Aelodau'r Cabinet yn unol ag amcanion corfforaethol.

(2) Galluogi'r Pwyllgor Craffu i barhau i ganolbwyntio ar reoli absenoldeb salwch ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor ac i wneud argymhellion i'r Cabinet, fel y bo'n briodol.

C40 CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2023 (ynghlwm fel Atodiad A).

Byddai'r adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried ac roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at drafodaeth fanwl gan y Pwyllgorau gydag unrhyw sylwadau'n cael eu dychwelyd i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2023 yn cael ei nodi a bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau (17 Gorffennaf, 2024) a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (18 Gorffennaf, 2024) gydag unrhyw argymhellion/sylwadau gan y Pwyllgorau yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet wedi hynny.

Y rheswm dros y penderfyniad

I ddarparu ar gyfer craffu ac adolygu Crynodeb Archwiliad Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol 2021.

No.

C41 CYNNIG I WAREDU LLAIN O DIR YN ARDAL ARLOESI, GLANNAU'R BARRI (DA/CLC) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd adrodd am warediad arfaethedig o ddarn o dir yn yr Ardal Arloesi.

Roedd y tir dan sylw wedi'i amgáu gan diroedd eraill a gofynnodd yr adroddiad am waredu'r tir drwy brydles i sicrhau buddsoddiad a dod â'r tir yn ôl i ddefnydd buddiol. Rhestrwyd adroddiad Rhan II cysylltiedig ar y mater ar agenda'r cyfarfod i'w ystyried gan y Cabinet.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – NODI gwarediad arfaethedig y safle sy'n llwyd ar y cynllun yn Atodiad A, y manylir ymhellach arno yn adroddiad Rhan II ar wahân a gyflwynwyd i'r cyfarfod Cabinet hwn.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi gwybod i'r Cabinet am Adroddiad Rhan II ynghylch gwaredu arfaethedig y Safle sydd wedi'i nodi'n llwyd yn ddangosol ar y cynllun yn Atodiad A.

C42 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

C43 CYNNIG I WAREDU LLAIN O DIR YN ARDAL ARLOESI, GLANNAU'R BARRI (DA/CLC) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) (GWYBODAETH EITHRIEDIG PARAGRAFF 14) –

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad Rhan II, ymhellach i Ran I a drafodwyd yn gynharach ar yr agenda, a'i ddiben oedd hwyluso gwaredu darn o dir yn yr Ardal Arloesi.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Lleoedd (mewn cydweithrediad â'r Arweinydd Gweithredol, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet

No.

Lleoedd Cynaliadwy, Prif Weithredwr a Phennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151) i waredu'r Safle a nodwyd yn llwyd yn ddangosol ar y cynllun yn Atodiad A drwy dendr anffurfiol yn rhinwedd prydlles 999 mlynedd neu les hirdymor priodol arall.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Lleoedd mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Eiddo i benodi ymgynghorwyr fel y bo'n ofynnol (megis ymgynghorwyr prisio tir) i gynorthwyo gyda'r trafodiad tir ac i sicrhau bod y Cyngor yn cael y gydnabyddiaeth orau ar gyfer y tir.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd neu Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl ddogfennau cyfreithiol sy'n ofynnol i hwyluso gwaredu'r Safle a nodwyd yn llwyd yn ddangosol ar y cynllun yn Atodiad A.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Awdurdodi gwaredu'r safle ar brydlles.

(2) Awdurdodi penodi ymgynghorwyr i gynorthwyo gyda chyflawni'r prosiect.

(3) Awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd neu Reolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl ddogfennau cyfreithiol ar gyfer y trafodiad tir.